# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.08.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Louise Hughes, Evie Morgan Jones

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Alwyn Thomas (Swyddog Gorfodi Trwyddedau) a Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu)

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – EASY STOP CONVENIENCE STORE, GLASFRYN STORES, BONTDDU, DOLGELLAU

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod yn gysylltiol â'r cais uchod:**

**Ar ran Easy Stop Convenience Store:** Mr Ian Clowes (Ymgeisydd)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Dau drigolyn ar ran y gwrthwynebwyr**

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Gethin Williams (Aelod Lleol)

Cyn symud ymlaen i ymdrin â'r cais uchod, datganodd y Cadeirydd bod dau fater o bryder wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â'r cais a fyddai'n ofynnol, yn unol â'r gweithdrefnau priodol, i'w hystyried sef:

(a) a oedd yr ymgeisydd wedi anfon hysbysiad priodol o'r cais i'w gyhoeddi mewn papur lleol;
(b) ei bod yn amlwg nad oedd rhai Adrannau perthnasol o'r Cyngor wedi derbyn copi o'r cais.

Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymateb i'r pryderon uchod ac fe hysbysodd yr Is-bwyllgor y credai ei fod wedi anfon hysbyseb i'r papur lleol sef y Cambrian News. Yng nghyswllt (b) uchod, nododd bod yr holl geisiadau wedi eu hanfon allan ac nid oedd yn deall paham nad oedd yr Adrannau perthnasol wedi eu derbyn. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd a oedd ganddo dystiolaeth ysgrifenedig i brofi hyn megis derbynneb postio, dywedodd yr ymgeisydd nad oedd ganddo'r ddogfennaeth gydag ef i'w gyflwyno i'r Is-bwyllgor.

Gadawodd yr ymgeisydd a'r partion eraill y cyfarfod er mwyn i'r Is-bwyllgor drafod y gweithdrefn priodol i ymdrin â'r cais yn wyneb y ffaith nad oedd y cais gerbron fel ag yr oedd yn cydymffurfio â chanllawiau statudol.

Yn dilyn trafodaeth drylwyr gan yr Is-bwyllgor mewn ymgynghoriad â'r Cyfreithiwr, gwahoddwyd yr ymgeisydd a'r partion eraill yn ôl i'r Siambr. Eglurodd y Cadeirydd wrth yr ymgeisydd bod cyfrifoldeb ar ymgeiswyr mewn ceisiadau o'r fath i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau

priodol. Oherwydd diffyg i gydymffurfio â'r gweithdrefnau priodol, nid oedd gan yr Is-bwyllgor ddewis ond i wrthod ymdrin â'r cais. Awgrymwyd yn garedig wrth yr ymgeisydd pe byddai'n dymuno ail-gyflwyno cais y byddai o'i fantais i gyflogi Cyfreithiwr i'w gynorthwyo i oresgyn unrhyw broblemau a gyfyd ac i sicrhau bod tystiolaeth ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r cais.

**Penderfynwyd: Gwrthod ymdrin â'r cais uchod oherwydd nad oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol priodol.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor.

3. **<u>CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – GWESTY'R SHIP, 14 STRYD LOMBARD, PORTHMADOG</u>**

**Yn bresennol ar ran Gwesty'r Ship:** Mr David Pike, Tenant
Mr Gary Hodgson, Punch Taverns
Ms Leslie Rogers, Punch Taverns

**Gwrthwynebydd:** Mr Michael Hughes

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Selwyn Griffiths

'Roedd y Cynghorydd Selwyn Griffiths, yr aelod lleol, yn bresennol gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau ond yn wyneb y ffaith nad oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig gwrthwynebodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd iddo gyflwyno sylwadau llafar ar y diwrnod. Eglurodd yr Aelod Lleol nad oedd swyddogion wedi ymgynghori gydag ef ynglyn â'r cais ac nad oedd yn ymwybodol o'r gwrandawiad hyd nes iddo dderbyn y Rhaglen ar ôl dod adref o'i wyliau.

Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd i swyddogion hysbysu Aelodau Lleol mewn da bryd ynglyn â gwrandawiadau o'r fath fel eu bont yn medru cyflwyno sylwadau ysgrifenedig pe byddai angen. Addawodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda Phenaethiaid yr Adrannau perthnasol i sicrhau na fyddai achos cyffelyb yn digwydd eto i'r dyfodol.

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Rheolwr Trwyddedu gan y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu ynglŷn â chais ar ran Gwesty'r Ship, 14 Stryd Lombard, Porthmadog i wyro'i trwydded eiddo. Gofynnir am yr hawl i ymestyn yr oriau ar gyfer cerddoriaeth byw ac wedi recordio, ynghyd â'r gwerthiant o alcohol, rhwng 10:00 – 00:00, gyda'r eiddo'n cau am 00:30, pob dydd o'r wythnos. Gofynnir hefyd i dynnu amodau a osodwyd ar y drwydded wreiddiol sef:

- bod maes parcio cyhoeddus tu ol i'r eiddo
- pobl lleol yw'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid
- ni chaniateir plant ar yr eiddo

Tynnwyd sylw bod anghysondeb yn yr amseroedd agor ar y Sul fel a nodir yn Rhan A a B o'r drwydded. Roedd Rhan B o'r drwydded yn nodi 12:00 tan 22.30 a chadarnhaodd y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu mai'r oriau agor cyfredol cywir ar gyfer cerddoriaeth wedi ei recordio a manwerthiant alcohol ar ddydd Sul ydoedd 12:00 tan 0:00 (fel a nodir yn Rhan A).

Ni dderbyniwyd sylwadau gan Safonau Masnach ac fe dderbyniwyd un llythyr o wrthwynebiad gan drigolyn cyfagos.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

vii Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

(a) Wrth gefnogi'r cais, eglurodd cyfreithiwr yr ymgeisydd mai'r bwriad ydoedd i ymestyn oriau agor yr eiddo gan ei fod yn debycach i fwyty y dyddiau hyn o'i gymharu â thafarn. Nodwyd bod gan yr eiddo enw da bellach am ddarparu bwyd o safon ac yn awyddus i ddenu teuluoedd yno i fwyta. Byddai ymestyn yr oriau yn lliflinio'r amseroedd gan roi hyblygrwydd i redeg y busnes yn fwy effeithiol a rhoi amser digonol i deuluoedd fedru bwyta pryd yn hamddenol heb orfod rhuthro. Pwysleislwyd ni fyddir yn gwerthu alcohol ar ol 0:00 ac y byddai'r landlord yn cael gair â gweithredwyr tacsis pan yn cludo cwsmeriaid i beidio chanu cyrn yn hwyr yn nos er mwyn lliniaru'r broblem swn, pe cyfyd yr angen.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod o'r Is-bwyllgor a oedd bwriad i ymestyn gweini bwyd yn hwyrach nag 21:00, esboniodd cyfreithiwr yr ymgeisydd y byddai hyn yn ddibynnol ar y galw.

(b) Manteisiodd y gwrthwynebydd oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol ei fod yn gwrthwynebu ymestyn oriau agor yr eiddo pob diwrnod o'r wythnos gan fod y broblem swn yn hwyr yn nos ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn (fel a weithredir yn unol âg amodau'r drwydded bresennol) yn effeithio ar ei iechyd. Tra'n cydnabod bod y landlord yn rhedeg yr eiddo yn dda iawn roedd yn pryderu am yr effaith swn saith noson o'r wythnos yn deillio o bobl yn gadael yr eiddo ac yn ymgynnull tu allan yn hwyr yn y nos a fyddai efallai yn achosi ymddygiad anghymdeithasol. Roedd y swn wedi cynnyddu ar hyd y blynyddoedd gyda tacsis, bwsiau mini yn canu cyrn yn hwyr yn nos.

Mewn ymateb, dywedodd cyfreithiwr yr ymgeisydd y byddai hyn yn cael ei blismona gan staff yr eiddo ac fe sicrhawyd y byddir yn cyflogi staff ychwanegol ar nosweithiau prysur. Ychwanegodd ni dderbyniwyd unrhyw gwyn gan yr Heddlu yn y gorffennol am achosion nac ychwaith gan Adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor. Tra'n cydnabod bod problemau o bobl ifanc yn ymgynnull yn y parc gyferbyn â Stryd Lombard ni ellid tystio eu bod yn gwsmeriaid y Ship gan bod tafarndai eraill yn yr ardal benodol yma. Cadarnhaodd yn ogystal y byddai'r landlord yn cydweithio gyda thrigolion cyfagos i liniaru unrhyw broblemau a gyfyd. Ychwanegwyd bod gan yr Heddlu ac Adran Gwarchod y Cyhoedd bwerau i fedru cymryd camau angenrheidiol i oresgyn problemau o'r fath pe byddai unrhyw eiddo yn anghydymffurfio â'r rheolau. Pwysleiswyd nad oedd unrhyw dystiolaeth o ymddygiad anghymdeithasol.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno ynglŷn â phroblemau yn yr eiddo
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o ran diogelwch cyhoeddus

- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – tra'n cydymdeimlo gyda'r gwrthwynebydd ynglyn â phroblemau swn yn hwyr yn nos rhwng nos Iau a Sadwrn, nid oedd tystiolaeth wedi dod i law oddi wrth yr Heddlu nag Adran Gwarchod y Cyhoedd mewn perthynas â phroblemau hyn. Teimlai'r Is-bwyllgor nad oedd digon o dystiolaeth wedi dod i law fyddai'n gallu caniatau cwtogi'r oriau agor a oedd yn destun y cais. Serch hynny, nodwyd bod pwerau ar gael gan y cyrff priodol i ymdrin â phroblemau swn pe cyfyd unrhyw achos i wneud hynny. Fodd bynnag, roeddynt o'r farn y dylid gosod amod ychwanegol i'r drwydded drwy ofyn i'r landlord sicrhau bod y teledu cylch cyfyng yn weithredol mor fuan ag sy'n bosibl a chais i gadw ffilmiau y teledu cylch cyfyng am 31 diwrnod a'u bod ar gael i'r Heddlu pe gwneir cais amdanynt.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – nid oedd unrhyw dystiolaeth dan y pennawd hwn.

**PENDERFYNWYD: Cymeradwyo i wyro trwydded Gwesty'r Ship, 14 Stryd Lombard, Porthmadog, i gynnwys:**

**(i) diddymu amodau o Atodiad 2 a osodwyd ar y drwydded wreiddiol sef:**

- **bod maes parcio cyhoeddus tu ol i'r eiddo**
- **pobl lleol yw'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid**
- **ni chaniateir plant ar yr eiddo**

**(ii) caniatau'r cais i chwarae cerddoriaeth byw, cerddoriaeth wedi'i recordio a manwerthiant o alcohol o 10.00 – 00.00 pob diwrnod o'r wythnos gyda'r eiddo'n cau am 00:30 pob dydd o'r wythnos.**

**(iii) gosod amod ychwanegol i sicrhau bod y teledu cylch cyfyng yn weithredol mor fuan ag sy'n bosibl ac i'r ffilmiau teledu cylch cyfyng gael eu cadw am 31 diwrnod a bod ar gael i'r Heddlu pe gwneir cais amdanynt.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.30 am a daeth i ben am 1.00 p.m.